

Roedd **Deiniol** y dewin yn ddoniol dros ben.

Roedd **jôcs Deiniol** yn gwneud i **bawb** chwerthin llond eu boliau.

Bob bore, ar ei ffordd i'r ysgol, byddai **Deiniol** yn dweud **jôc** gan wneud i'w dad chwerthin. Weithiau byddai ei dad yn crio chwerthin am fod **jôcs Deiniol** mor ddoniol.



Bob amser cinio, ar gae chwarae'r ysgol, byddai **Deiniol** yn dweud **jôc** gan wneud i weddill y disgyblion chwerthin. Weithiau byddai'r plant yn chwerthin am weddill y diwrnod am fod **jôcs Deiniol** mor ddoniol.

Bob nos, ar ei ffordd i'r gwely, byddai **Deiniol** yn dweud **jôc** gan wneud i'w fam-gu chwerthin. Weithiau byddai ei fam-gu angen eiliad neu ddwy er mwyn iddi ddal ei hanadl ar ôl yr holl chwerthin am fod **jôcs Deiniol** mor ddoniol.

Doedd dim diwedd ar **jôcs** doniol **Deiniol**.

Un o hoff **jôcs Deiniol** oedd:

Pwy ydych chi'n galw pan mae Taid mewn angen?

Nain, Nain, Nain.

Un o hoff **jôcs Bella** y **gwningen**, sef anifail anwes y teulu, oedd:

Beth yw hoff gerddoriaeth deintydd?

Cerdd Dant.

Ac un o hoff **jôcs** y **dyn lolipop** lleol oedd:

Pryd mae defaid yn cael eu pen-blwydd?

Fis Meeeeeeedi.

Roedd pawb yn Nheyrnas Dimlle yn hoffi clywed **jôcs Deiniol** y dewin.

Ond, roedd yna **hunllef** ofnadwy wedi cyrraedd Deyrnas Dimlle.

Roedd y **brenin** heb wenu ers dros wythnos ac roedd pawb yn poeni amdano.

Er mwyn trio gwella'r sefyllfa roedd gweision y **brenin** wedi trefnu cystadleuaeth i drïo gwneud i'r **brenin** wenu eto.

Cyhoeddwyd bod y gystadleuaeth yn agored i bawb.



Yn bwysicach na hynny, pwy bynnag a fyddai'n llwyddo'n gyntaf i wneud y **brenin** wenu a fyddai'n ennill **gwobr** o'i ddewis.

Roedd pawb yn y deyrnas wedi clywed am y gystadleuaeth ac roedd pawb eisiau cystadlu, gan gynnwys **Deiniol**.

Y bore hwnnw agorwyd drysau'r palas. Roedd gweision y **brenin** yn ysu i wahodd pawb trwy ddrysau'r palas i'r neuadd fawr yn y gobaith y byddai rhywun yn gallu gwneud i'r **brenin** wenu eto.

Roedd y **brenin** yn eistedd yn ei sedd grand ynghanol y neuadd fawr, yn barod i weld a fyddai unrhyw un yn gallu rhoi gwên ar ei wyneb eto.



Roedd y ciw o bobl a oedd yn aros i drio gwneud y **brenin** wenu yn un hir dros ben.



Roedd y ciw mor hir roedd yna linell droellog o bobl yn mynd yr holl ffordd o'r palas i'r pentref.

Deiniol oedd yr olaf yn y ciw.

Ar ôl diwrnod cyfan o aros roedd **Deiniol**, o'r diwedd, wedi cyrraedd blaen y ciw!

Ar ôl yr holl aros, roedd hi nawr yn amser i **Deiniol** ddangos ei dalent i bawb.

Roedd pawb o flaen **Deiniol** wedi bod yn aflwyddiannus yn eu hymdrechion i wneud y **brenin** wenu eto.

Doedd neb wedi bod yn ddigon doniol i'r **brenin**. Ond roedd hynny ar fin newid...

Roedd **Deiniol** yn teimlo'n nerfus dros ben. O bawb yn y deyrnas, **Deiniol** oedd yr unig un oedd ar ôl i drio helpu'r **brenin** ac achub y deyrnas.

Anadlodd **Deiniol** yn ddofn cyn dechrau siarad yn araf ac yn glir.

Dechreuodd **Deiniol** gyda'r **jôc**:

Beth sy'n oren a du ac yn mynd i fyny ac i lawr?

Sali Mali mewn lifft.

Gwelodd **Deiniol** ochrau ceg y **brenin** yn symud ychydig.

Rhoddodd hyn hwb i hyder **Deiniol** ac aeth ymlaen i ddweud **jôc** arall:

Pam bod gwddf jiráff mor hir?

Am fod ei draed yn drewi.



Roed un ochr ceg y **brenin** wedi dechrau codi.

Roedd y **brenin** mor agos i wenu eto.

Parhaodd **Deiniol** gyda'i **jôcs** wrth ddweud:

Pam bod y bara yn sâl yn y bore?

Am ei fod yn dost.

Erbyn i **Deiniol** orffen ei **jôc** olaf roedd y **brenin** yn gwenu o glust i glust ac yn chwerthin llond ei fol.



Roedd **Deiniol** wedi achub y dydd ac achub Deyrnas Dimlle!

Roedd **Deiniol** hefyd wedi ennill y gystadleuaeth ac yn cael dewis beth bynnag roedd e eisiau fel **gwobr**. Roedd pawb yn ysu i weld beth fyddai **Deiniol** yn ei ddewis fel **gwobr**.

Penderfynodd **Deiniol** ei fod e eisiau **ffon hud** newydd.

O'r diwrnod hynny ymlaen, roedd **Deiniol** yn gallu gwneud yr holl driciau yn y byd i gyd gyda'i **ffon hud** newydd.

Ond, yn fwy na hynny, roedd **Deiniol** yn cael ei adnabod fel y dewin mwyaf doniol yn y byd i gyd.

HWRÊ!

Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans